

Tasg 3

Gwarthus!

Hysbyseb deg

Cyn gwneud y gweithgaredd hwn, naill ai gwnewch **Tasg 2**, neu darllenwch y darn **Cyfrifol!** sy'n sôn am Fasnach Deg.

1. Meddyliwch am hysbyseb am siocled neu siocledi ar y teledu neu ar y we. Disgrifiwch yr hysbyseb i'r grŵp:

- Oes stori yn yr hysbyseb?
- Ydy'r hysbyseb yn disgrifio'r siocled?
- Ydy'r hysbyseb yn ddiddorol? Pam?
- Ydy'r hysbyseb yn ddoniol? Pam?
- Sut mae'r hysbyseb yn ceisio gwneud i chi brynu'r siocled?
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall?

2. Nawr, chwiliwch am wybodaeth am siocled Masnach Deg.

Rhannwch y wybodaeth â'r grŵp.

3. Mewn grŵp, gwnewch hysbyseb am y siocled yma.

- Meddyliwch am y stori.
- Disgrifiwch y siocled.
- Sgriptiwch yr hysbyseb.
Cofiwch: rhaid perswadio pobl i brynu'r siocled, felly defnyddiwch y canlynol:
 - disgrifiadau da ac ansoddeiriau trawiadol
 - cwestiynau rhethregol
 - gorchmynion addas.

Cofiwch ddweud pam dylai bobl prynu'r siocled yma.

4. Ffilmiwch yr hysbyseb.